OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3232 (Cy.284) (C.132)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - - 12 Tachwedd 2007

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 270(4) a (5)(c) o Ddeddf Tai 2004(**1**) ac a freiniwyd bellach(**2**) yng Ngweinidogion Cymru, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 13 Rhagfyr 2007

2. Mae darpariaethau canlynol Deddf Tai 2004 yn dod i rym ar 13 Rhagfyr 2007:

(a) adran 225, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym(**3**);

(b) adran 226;

(c) adran 265(1), i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 47 o Atodlen 15.

Jocelyn Davies
O dan awdurdod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

12 Tachwedd 2007

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 270(4) a(5) yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o'r "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 270(4) a (5) i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) I'r graddau y mae darpariaeth yn Neddf 2004 yn rhoi pwer i wneud gorchymyn neu reoliadau yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, daeth i rym ar ddyddiad pasio'r Ddeddf honno yn rhinwedd adran 270(2)(b) o'r Ddeddf.